Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael yn:
www.llyw.cymru/penderfyndiadau-cynllunio-ac-amgylchedd-cymru/beth-rydym-yn-ei-wneud

PCAC PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# PROSIECTAU SEILWAITH ARWYDDOCAOL (SIP): Cais am Wasanaethau Cyn-ymgeisio gan PCAC, gan gynnwys Sgrinio neu Gwmpasu Asesiad Effaith Amgylcheddol

## GWYBODAETH BWYSIG

## DARLLENWCH CYN CYFLWYNO'R FFURFLEN HON:

Mae'r gwasanaethau cyn-ymgeisio a ddarparwn yn cael eu cynnig heb niweidio unrhyw ystyriaeth o geisiadau cysylltiedig yn y dyfodol ac yn cael eu rhoi ar sail y wybodaeth a ddarperir ar adeg eich cais. Mae ffioedd yn daladwy ar gyfer ein gwasanaethau cyn-ymgeisio, fel y nodir yma: www.llyw.cymru/ffioedd-ar-gyfer-ceisiadau-prosiect-seilwaith-arwyddocaol-sip

Rydym yn eich annog yn gryf i drafod eich cais gyda ni cyn cyflwyno'r ffurflen hon, er mwyn i ni allu sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i ymdrin â'ch cais a'r trefniadau ar gyfer anfonebu ffioedd ar waith pan fyddwn yn ei dderbyn. Os na fyddwch yn rhoi rhybudd ymlaen llaw, gallai hyn achosi oedi wrth ymdrin â'ch cais a darparu ein cyngor.

Mae cyngor ar wasanaethau cyn-ymgeisio wedi'i gynnwys yn ein canllawiau yma: www.llyw.cymru/prosiectau-seilwaith-arwyddocaol-sip-gwasanaethau-cyn-ymgeisio-gan-benderfyniadau-cynllunio-ac

Dylech gyfeirio at y cyngor hwnnw wrth wneud eich cais a llenwi'r ffurflen hon.

**Ar ôl ei derbyn, byddwn yn gwirio a yw eich cais cyn-ymgeisio yn ddilys ac, os nad ydyw, byddwn yn cadarnhau pam. Os yw'n ddilys, byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer rhoi ein hymateb.**

**Cyfeirnod PCAC** Os nad ydych wedi cofrestru'n flaenorol, rhowch Dd/B.

Teitl y Prosiect

**Awdurdodau Cynllunio Perthnasol**

Os oes unrhyw ran o'r safle mewn ardal Awdurdod Cynllunio (AC), yr AC hwnnw yw'r 'AC perthnasol' ar gyfer y cais SIP. Gall hyn olygu y gallai fod mwy nag un AC perthnasol fesul cais.

**Ardal Forol Cymru**

A yw'r prosiect wedi'i leoli yn Ardal Forol Cymru, fel y'i diffinnir yn Adran 143(1) Deddf Seilwaith (Cymru) 2024?

## 1. YMGEISYDD

Enw

Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)

## 2. ASIANT (OS OES UN) AR GYFER Y CAIS

Enw'r Cyswllt

Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)

## 3. LLEOLIAD Y SAFLE

Ar gyfer datblygiad yng Nghymru, **rhaid** i chi gynnwys cynllun o leoliad y safle, wedi'i luniadu i raddfa adnabyddadwy ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd. Rhaid dangos amlinelliad y safle yn goch a thir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno yn las.

Os oes unrhyw ran o'r prosiect wedi'i lleoli yn Ardal Forol Cymru, rhowch gyfesurynnau lledred a hydred yn seiliedig ar System Geodetig y Byd 1984, sy'n nodi'r lleoliad y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Disgrifiad o leoliad safle(oedd) y cais, neu ar gyfer cynlluniau ag elfen linellol, llwybr y datblygiad (cyfeiriad y safle).

Rhowch gyfeirnod(au) Grid. Lle mae nifer o safleoedd, rhowch gyfeirnod(au) Grid ar gyfer pob un ar ddalen ar wahân.

## 4. DISGRIFIAD O'R DATBLYGIAD A GYNIGIR

## 5. MANYLION AM UNRHYW GEISIADAU AM FARN NEU GYFARWYDDYD SGRINIO, NEU FARN NEU GYFARWYDDYD CWMPASU A WNAED O DAN Y RHEOLIADAU AEA CYN CYFLWYNO'R FFURFLEN HON

## 6. GWASANAETHAU CYN-YMGEISIO SYDD EU HANGEN

Ticiwch y blwch/blychau perthnasol a llenwch y meysydd ategol i nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen.

**Cyfarfod Cychwynnol (i'w gynnal yn rhithwir, oni bai y cytunir fel arall)** ☐

Rydym yn argymell cynnal Cyfarfod Cychwynnol cyn gofyn am wasanaethau cyn-ymgeisio eraill.

Dyddiad(au) ac amser(oedd) dechrau dewisol

**Sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA)** ☐

Mae'n well gofyn am wasanaethau Sgrinio AEA a/neu Gwmpasu AEA cyn gwasanaethau cyn ymgeisio teilwredig er mwyn helpu i ddatrys ymholiadau'n gynnar.

Ni fydd PCAC yn prosesu ceisiadau ar gyfer Sgrinio a Chwmpasu ar yr un pryd. Mae'n debygol y bydd llawer o brosiectau SIP yn ddatblygiad AEA.

Mae cyngor ar y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Sgrinio AEA wedi'i gynnwys yn ein canllawiau yma www.llyw.cymru/canllawiau-asesiad-effaith-amgylcheddol-aea

Ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys tyrbinau gwynt ar y tir neu ar y môr, dylech gynnwys 'un ddalen' annibynnol sy'n crynhoi'r canlynol ar gyfer pob tyrbin dangosol:

i. dwyreiniadau a gogleddiadau neu gyfesurynnau morol
ii. uchder y tyrbin
iii. uchder y both
iv. diamedr y rotor

Gallai methu darparu'r wybodaeth hon mewn dogfen wahân arwain at oedi, gan na fydd rhai ymgyngoreion yn cael y wybodaeth hon o ddogfennau ategol.

Rhaid i chi anfon copi o geisiadau Sgrinio at bob Awdurdod Cynllunio perthnasol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais i PCAC.

**Cwmpasu AEA** ☐

Mae cyngor ar y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Cwmpasu AEA wedi'i gynnwys yn ein canllawiau yma www.llyw.cymru/canllawiau-asesiad-effaith-amgylcheddol-aea. Ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys tyrbinau gwynt ar y tir neu ar y môr, dylech gynnwys 'un ddalen' annibynnol, fel ar gyfer ceisiadau Sgrinio uchod.

Rhaid i chi anfon copi o geisiadau Cwmpasu at bob Awdurdod Cynllunio perthnasol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais i PCAC.

**Cyngor Cyn-ymgeisio Pwrpasol**

Ticiwch yr hyn y mae angen cyngor arnoch yn ei gylch:

- Ffurf a chynnwys y cais. ☐
- Adroddiadau technegol y gellir eu darparu yn rhan o'r cais. ☐
- Unrhyw bolisi perthnasol. Sylwer mai'r Awdurdodau Cynllunio perthnasol sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor ar bolisïau cynllunio lleol. ☐
- Y weithdrefn ar gyfer gwneud, archwilio a phenderfynu ar geisiadau SIP. Sicrhewch eich bod wedi darllen ein canllawiau: www.llyw.cymru/prosiectau-seilwaith-arwyddocaol-sip-canllawiau ☐
- Unrhyw gydsyniad y gellid ei dybio neu y gellid dileu'r gofynion ar ei gyfer trwy ddarpariaeth mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith. ☐

**Cydsyniadau Tybiedig a Chydsyniadau a Ddilëir**

Nodwch ba gydsyniadau rydych yn ceisio eu tybio neu eu dileu a rhowch eich ymholiadau penodol sy'n ymwneud â phob un ohonynt. Atodwch ddogfen ar wahân, yn ôl yr angen.

**Ymholiadau cyn ymgeisio**

Beth yw eich ymholiadau penodol cyn ymgeisio?

Bydd darparu ymholiadau penodol a digon o wybodaeth ategol yn arwain at ymateb sy'n debygol o ychwanegu mwy o werth i ymgeiswyr. Atodwch ddogfen ar wahân, yn ôl yr angen.

| |
|---|
| |

**Gwiriad Dilysu Cyn Cyflwyno** ☐

Bydd PCAC yn gwirio a oes unrhyw rai o'r dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y cais ar goll. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gwirio cyflawnrwydd y Datganiad Amgylcheddol. Nid yw'r gwiriad hwn yn rhwymol ar y gwiriadau ffurfiol y mae'n rhaid eu cynnal pan gaiff y cais ei gyflwyno.

**Gwiriad Cyn Cyflwyno o'r Datganiad Amgylcheddol (DA) drafft** ☐

Bydd PCAC yn gwirio a yw'r DA drafft yn 'gyflawn' yn erbyn y Rheoliadau AEA perthnasol, ynghyd â'r Farn neu'r Cyfarwyddyd Cwmpasu diweddaraf ar gyfer y prosiect, os oes un. Nid yw hyn yn atal yr Awdurdod Archwilio na'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad rhag nodi materion yn ystod y cam archwilio na gofyn am ragor o wybodaeth yn ddiweddarach, yn ôl yr angen.

## 7. CAIS I OHIRIO CYN CYHOEDDI (DEWISOL)

Rhaid i PCAC gadw a chyhoeddi cofrestr o geisiadau am gyngor cyn-ymgeisio, gan gynnwys:

- copi o'r ffurflen
- unrhyw gynllun a gyflwynwyd, ac
- unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu wybodaeth arall a gyflwynwyd.

Fel arfer, rhaid i PCAC gyhoeddi ein cyngor pan gaiff ei roi. Ticiwch os hoffech ofyn i ni ohirio cyn cyhoeddi eich cais a/neu'r ymateb cyn-ymgeisio. Rhowch y rhesymau am y gohirio, a hyd at ba ddyddiad neu gam yr hoffech i PCAC ohirio. ☐

Er mwyn i PCAC ohirio cyn cyhoeddi, rhaid i ni fod yn fodlon bod y cyfiawnhad a roddwyd yn gorbwyso'r budd cyhoeddus mewn datgelu. Yr hwyraf y gallwn ohirio yw'r cynharaf o'r canlynol:

- Tair blynedd o ddyddiad ein cyngor
- Dyddiad eich Hysbysiad o fwriad i gyflwyno SIP

Dylech nodi ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Gallai'r rhain, yn dilyn cais, ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu unrhyw wybodaeth heb ei chyhoeddi y cytunwyd i ohirio cyn ei chyhoeddi, naill ai lle nad yw esgusodiad neu eithriad yn berthnasol neu os, dan holl amgylchiadau'r achos, y mae'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth yn gorbwyso budd cyhoeddus cynnal yr esgusodiad neu'r eithriad.

---

## 8. FFI

Mae ein ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn-ymgeisio wedi'u nodi yma: www.llyw.cymru/ffioedd-ar-gyfer-ceisiadau-prosiect-seilwaith-arwyddocaol-sip

Gweler 'Gwneud taliad' yn y canllawiau uchod ar ffioedd.

Rhowch fanylion am yr anfoneb a'r dyddiad talu:

## 9. DOGFENNAU ATEGOL

Cadarnhewch eich bod yn cyflwyno'r dogfennau angenrheidiol canlynol:

Cynllun wedi'i luniadu i raddfa adnabyddadwy ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd. ☐

Copi o unrhyw gynlluniau ychwanegol (rhaid eu lluniadu i raddfa adnabyddadwy a dangos cyfeiriad y gogledd), lluniadau neu ddogfennau sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r prosiect a llywio'r cais hwn am gyngor cyn-ymgeisio. ☐

Ffeil siâp GIS o'r cynnig yn y fformat canlynol: ☐

- Math geometreg polygon, sy'n cynnwys un neu fwy o nodweddion polygon sy'n cynrychioli ffin y safle DNS;
- Un Shapefile wedi'i darparu ar ffurf ffeil *.zip gan ddefnyddio'r gosodiadau WinZip rhagosodedig (h.y. dim amgryptio, cywasgu arferol ac ati);
- Rhaid i'r ffeil *.zip gynnwys un o bob un o'r ffeiliau canlynol: *.prj, *.dbf, *.shp, *.shx; ac
- Ni ddylai fod unrhyw ffeiliau eraill yn y ffeil *.zip;
- Ar ffurf Grid Cenedlaethol Prydain (OSGB1936);
- Os yw ffin arfaethedig y safle DNS yn cynnwys nifer o bolygonau ar wahân, dylid cynnwys y rhain i gyd yn y ffeil siâp unigol sydd wedi'i chynnwys yn y ffeil *.zip.

Sylwch, ar gyfer ceisiadau Sgrinio a Chwmpasu, bydd y ffeil siâp yn cael ei hanfon at ein hymgyngoreion yn rhan o'n proses ymgynghori; fodd bynnag, ni fyddwn yn cyhoeddi'r data hwn yn gyhoeddus ar ein gwefan, nac ar MapDataCymru. Byddwn hefyd yn datgan yn ein hymgynghoriad na ddylai ein hymgyngoreion gyhoeddi/trosglwyddo'r ffeil siâp heb ganiatâd penodol gennych chi.

Rhestrwch y dogfennau ategol. Atodwch ddalen ar wahân, yn ôl yr angen.

| |
|---|
| |

**Cyflwyno eich cais**

Mae'n well gennym gyflwyniad electronig. Gallwn dderbyn negeseuon e-bost hyd at 30 MB. Os yw eich cyflwyniad yn rhy fawr i'w gyflwyno mewn cyfres o negeseuon e-bost, cysylltwch â ni a byddwn yn trefnu dull amgen.

**ANFONWCH GOPI ELECTRONIG ATOM YN:**

E-bost: **PEDW.seilwaith@llyw.cymru**

**Neu anfonwch at:**

Tîm Gwaith Achos Seilwaith
PCAC
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: 0300 123 1590

---

**MANYLION CYSWLLT (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)**

**1. MANYLION PERSONOL YR YMGEISYDD**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |
| E-bost | |

**2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes un)**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |
| E-bost | |

**DATGANIAD YN YMWNEUD Â CHAIS AM WASANAETHAU CYN-YMGEISIO**

Rwyf wedi amgáu neu atodi copïau o'r holl gynlluniau, lluniadau a dogfennau a nodir yn Adran 9. ☐

Cadarnhaf fod pob adran wedi'i llenwi'n gyflawn a bod y manylion a ddarparwyd yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth. ☐

Deallaf y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ac y bydd y cais hwn a'r cyngor sy'n deillio ohono yn cael eu cyhoeddi ar-lein. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. ☐

| | |
|---|---|
| Enw (MEWN PRIFLYTHRENNAU) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

Mae casglu a phrosesu'r data personol a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar gael yn llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53671
This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd
We welcome correspondence and telephone calls in English / Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Saesneg